# Nodyn i Ddarlledwyr

Heddiw (3 Tachwedd 2021) mae Ofcom wedi cyhoeddi ymchwil newydd i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd lleiafrifoedd ethnig y sianeli teledu a'r gorsafoedd radio sy'n eu gwasanaethu nhw a'u cymunedau diwylliannol neu grefyddol yn uniongyrchol. Yr ymchwil hon yw'r cyntaf o'i bath ac fe'i cyflawnwyd ar ran Ofcom gan Ethnic Dimension, asiantaeth ymchwil sy'n arbenigo mewn gweithio gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig. Gwnaethom yr ymchwil hon gan i'n gwaith achos parhaus a'n hymchwil flaenorol ein gwneud yn ymwybodol y gallai disgwyliadau cynulleidfaoedd lleiafrifoedd ethnig ar gyfer y gwasanaethau hyn sydd wedi'u targedu, ac yn aml yn fach, fod yn wahanol i orsafoedd a sianeli prif ffrwd. Mae'n bwysig i Ofcom, yng nghyd-destun rhyddid mynegiant, gan gynnwys hawl y gynulleidfa i dderbyn gwybodaeth a syniadau, fod gennym ddealltwriaeth lawn a chyfredol o'r fath ddisgwyliadau ac ar yr un pryd sicrhau ein bod yn amddiffyn cynulleidfaoedd rhag deunydd niweidiol a thramgwyddus mewn rhaglenni.

Roedd yr ymchwil yn cynnwys cyfranogwyr o gefndiroedd Indiaidd, Bangladeshaidd, Pacistanaidd, Du Affricanaidd a'r rhai sy'n siarad Arabeg[1] ac yn canolbwyntio ar reolau Ofcom ynghylch niwed, tramgwydd, casineb a chamdriniaeth. Canfu fod y sianeli a'r gorsafoedd hyn yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan eu cynulleidfaoedd a ddywedodd wrthym fod y gwasanaethau hyn yn rhoi ymdeimlad o berthyn a chysylltiad â'u cymunedau ethnig. Fodd bynnag, nododd cyfranogwyr hefyd rai meysydd penodol o bryder am y gwasanaethau hyn a theimlai llawer o gyfranogwyr y dylai'r un mesurau diogelu a lliniaru y maent yn eu gweld ar wasanaethau prif ffrwd hefyd fod ar waith yn fwy rheolaidd ar wasanaethau wedi'u targedu.

Yn yr adroddiad, disgrifir yn fanwl y meysydd pryder a nodwyd gan gyfranogwyr a'r mesurau lliniaru yr oeddent yn disgwyl i drwyddedeion eu rhoi ar waith. Mae Ofcom yn disgwyl i'w drwyddedeion ddefnyddio'r ymchwil hon i helpu i gyfeirio a chefnogi eu cydymffurfiaeth â Chod Darlledu Ofcom, yn benodol mewn perthynas â safonau a dderbynnir yn gyffredinol, gan gynnwys rheolau Ofcom ar Niwed a Thramgwydd (Adran Dau y Cod) a chasineb a chamdriniaeth (Adran Tri y Cod).

Darparodd yr ymchwil heddiw ganfyddiadau i ni hefyd ynghylch teimladau cyfranogwyr am Ofcom, eu hymwybyddiaeth o'n rôl a'n cylch gwaith, a'u tebygolrwydd o ymgysylltu â ni. Mae'n dangos bod gennym fwy o waith i'w wneud yn y maes hwn. Rydym yn cynyddu ein hymdrechion i ennyn mwy o ymwybyddiaeth o Ofcom ymhlith y cymunedau hyn, fel bod cynulleidfaoedd yn gwybod pwy ydym ni a'u bod yn gallu teimlo'n hyderus i godi pryderon gyda ni.

[1] Dyma'r grwpiau lleiafrifoedd ethnig sydd â'r nifer uchaf o sianeli a gorsafoedd trwyddedig Ofcom a dargedir yn benodol at y cymunedau penodol hyn.